CEWC CYMRU

COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

NEWSLETTER

WINTER

07/08

Active citizenship for Wales and the world

A NEW LOOK ONLINE…

CEWC-Cymru's website – at **www.cewc-cymru.org.uk** – has been completely overhauled, making it more useful than ever for teachers and students interested in global citizenship.

The first thing that users will notice when visiting the fully bilingual site is our fresh, modern look. The easy-to-navigate pages provide information on all of our events, debating opportunities, teacher training courses and other activities. Users with visual impairment should also find that the site meets their accessibility needs.

One click away from the homepage is **Citizenship Today**, our rewritten and redesigned online membership system. It provides over 60 lesson plans for Key Stages 1 to 4, focusing on topics such as human rights, community involvement, diversity and democracy. Also available to subscribers is our complete *Skills for Democracy* pack for teaching 13-15 year olds.

We have added a new section specifically for young people, enabling them to access information about CEWC-Cymru that is tailored to their needs.

Teachers and students are encouraged to visit the site today – and, if you have suggestions for new content, e-mail **cewc@wcia.org.uk**.

…AND NEW RESOURCES FROM OUR INC*LUSION* PROJECT

Inc*lusion*, funded by the European Union's Equal initiative, has resulted in the production of two new CEWC-Cymru resources. The first, *Who Killed Simone Valentine?*, is designed for use with disadvantaged young people in special schools, pupil referral units and other settings. It uses the film of the same name to examine citizenship themes such as drug use, teenage pregnancy, and rights and responsibilities. The second, *Sioned's Problems*, is a paper-based pack more suitable for mainstream secondary school pupils.

We can provide a DVD-ROM which includes both resources and the *Simone Valentine* film. Alternatively, visit our website and click on "Encouraging participation". This section provides downloadable versions of relevant lesson plans and more information about the Inc*lusion* project, which concluded in December 2007.

www.cewc-cymru.org.uk

PENCOED DEBATERS SEAL NATIONAL VICTORY

Jenny Willott, MP for Cardiff Central, presents the trophy to the Pencoed team.

It was a tough challenge for Ellen Robertson and Eleanor Francis of Pencoed Comprehensive School, Bridgend – but it all ended in joy when the two debaters were named winners of the 2007 Julian Hodge Bank Wales Schools Debating Championships at the national final in November. They proposed the motion "*This House recognises Iran's right to develop a civil nuclear energy programme*", with opposition from King Henry VIII School, Abergavenny.

51 schools and colleges took part in this year's tournament, which saw students debate topics such as the Trident nuclear missile system, criminal justice and airport expansion.

Ellen and Eleanor will now form part of the team that represents Wales at the 2008 World Schools Debating Championships in Washington D.C., USA, in September. The other team members are Jon Worgan (King Henry VIII School), Cerith Evans (Gorseinon College, Swansea) and James Staniforth (Bishop of Llandaff High School, Cardiff).

If you'd like CEWC-Cymru to provide a debating workshop at your school, or to deliver in-service training in this area, contact **cewc@wcia.org.uk**. Alternatively, go to **www.cewc-cymru.org.uk/debating/787** for more debating information, or to order our *Debating Handbook*.

LOCAL COLLEGE TRIUMPHS AT COLWYN BAY

Also finding success in the Autumn term were 6 students from Coleg Llandrillo, who won the 2007-08 North Wales Forum of the European Youth Parliament competition at Colwyn Bay in November. They will join the winners of the South Wales Forum – taking place in Swansea on 3 March 2008 – in representing Wales at the EYP UK session in Durham in September.

SOLVING THE WORLD'S PROBLEMS – IN WALES

Our Model United Nations conferences are highly recommended for 14-18 year old students who want to get a taste of international decision making. Four such events took place in the Autumn term – in Carmarthen, Port Talbot, Cardiff and, for the first time, Aberystwyth University – and four more are scheduled for Spring 2008, as follows:

Council Offices, **Llangefni** – Thursday 6 March
County Hall, **Mold** – Friday 7 March
Civic Offices, **Barry** – Thursday 13 March
County Hall, **Cwmbran** – Monday 17 March

Students work in teams of three, with most teams representing a UN member state. During the day they try to reach agreement on tackling important international issues; in the current round of events, these are Climate Change and Global Trade. A briefing session is provided a month prior to each conference, to help students understand and prepare for the event.

E-mail **cewc@wcia.org.uk** if you'd like to get involved. It costs £25 for a CEWC-Cymru member school/college to register up to 9 students, or £40 for non-members.

ALL CHANGE AT THE CEWC-CYMRU OFFICE

Owain Iorwerth became CEWC-Cymru's Secretarial Assistant in June 2007. Owain studied at the University of the West of England and the University of Wales, Aberystwyth, before working for Dolen Cymru, the Wales-Lesotho link organisation. He moves on in January 2008 to be Exchange Co-ordinator for UNA Exchange.

Tamara Gervasoni joined us in November 2007 in the role of Programme Co-ordinator, organising conferences and activities for both CEWC-Cymru and our parent body, the Welsh Centre for International Affairs (WCIA). In 2004 Tamara spent 6 months volunteering in South Sudan, Kenya and Ethiopia; this she considers the turning point in her life. She later worked for the Irish humanitarian agency GOAL, and in 2006 moved to Cardiff to study for a Masters in International Relations. She speaks fluent Italian, French and Spanish and has travelled throughout the world.

Martin Pollard is now Deputy Director of the WCIA. He retains the role of CEWC-Cymru Education Officer – training teachers, visiting schools and handling the organisation's overall strategy – but has handed over the organisation of our events to Tamara. His new role includes fundraising and project management for both organisations.

HELP US DECIDE CEWC-CYMRU'S FUTURE

One of CEWC-Cymru's Strategic Aims – outlined in our 2007-2012 Business Plan – is to become a more democratic organisation, responsive to the views of users of our activities.

We are therefore pleased to invite **teachers** to become part of a new Project Development Group, discussing innovative projects relating to Education for Sustainable Development and Global Citizenship (ESDGC), Personal and Social Education (PSE) and other areas of the school curriculum.

At the same time, **students** are invited to join a Young People's Consultation Group. We are keen to ensure that young citizens can participate in decisions which affect them, in order to meet our mission of helping them "develop the skills, knowledge and self-belief that will enable them to contribute to the future of Wales and the world". We want to hear your ideas for new activities, topics for future events, and whether you would like to be represented on CEWC-Cymru's Executive Committee.

To get involved in either group, please e-mail **martinpollard@wcia.org.uk**.

TAKING ESDGC BEYOND SCHOOL

The University of Wales, Newport is now offering a Masters qualification in Education for Sustainable Development and Global Citizenship. This enables students to explore the concept of sustainable development, the effectiveness of its promotion at an international level, and the idea of citizenship in the modern world. For more information, visit **www3.newport.ac.uk/courses/displayCourse.aspx?course_id=426**.

Design elfen.co.uk

TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk Reg. charity no. 1048759

CEWC-CYMRU TEMPLE OF PEACE • CATHAYS PARK • CARDIFF • CF10 3AP

CEWC CYMRU

CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

CYLCHLYTHYR GAEAF 07/08

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

DELWEDD NEWYDD AR-LEIN...

Cafodd gwefan CEWC-Cymru – **www.cewc-cymru.org.uk** – ei diwygio'n llwyr, a bellach mae'n adnodd mwy defnyddiol nag erioed ar gyfer athrawon a disgyblion sy'n ymddiddori ym maes dinasyddiaeth fyd-eang.

Bydd ymwelwyr â'r wefan gwbl ddwyieithog hon yn sylwi'n syth ar ei diwyg ffres a chyfoes. Mae'r gweddalennau hawdd i'w fforio yn cynnig gwybodaeth am bob un o'n digwyddiadau, cyfleoedd i gymryd rhan mewn dadleuon, cyrsiau hyfforddi i athrawon a gweithgareddau eraill. Dylai defnyddwyr sydd â nam ar ei golwg hefyd ganfod bod y wefan yn cwrdd â'u hanghenion o ran hygyrchedd.

O glicio unwaith ar y ddolen ar yr hafan ddalen cewch fynediad i **Dinasyddiaeth Heddiw**, ein system aelodaeth ar-lein. Diwygiwyd testun a chynllun yr adnodd hwn yn ddiweddar a bellach mae'n cynnig dros 60 o gynlluniau gwersi ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 i 4, sy'n talu sylw i bynciau fel hawliau dynol, cynnwys cymunedau, amrywiaeth a democratiaeth. Caiff tanysgrifwyr hefyd ddefnyddio ein pecyn *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth* cyfan at ddysgu disgyblion 13-15 oed.

Rydym wedi ychwanegu adran newydd yn arbennig ar gyfer pobl ifainc, i'w galluogi i gyrchu gwybodaeth am CEWC-Cymru a deilwriwyd yn unswydd at eu gofynion.

Anogwn athrawon a disgyblion i ymweld â'r wefan heddiw – ac, os oes gennych awgrymiadau ar gyfer cynnwys newydd, e-bostiwch **cewc@wcia.org.uk**.

...AC ADNODDAU NEWYDD GAN EIN PROSIECT INC*LUSION*

Mae Inc*lusion*, dan nawdd menter *Equal* yr Undeb Ewropeaidd, wedi arwain at gynhyrchu dau adnodd newydd gan CEWC-Cymru. Cynlluniwyd y cyntaf, *Who Killed Simone Valentine?*, i'w ddefnyddio gan bobl ifainc dan anfantais mewn ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau eraill. Mae'n defnyddio'r ffilm o'r un enw i edrych ar themâu ym maes dinasyddiaeth fel defnyddio cyffuriau, beichiogrwydd yn yr arddegau a hawliau a chyfrifoldebau. Pecyn papur yw'r ail, *Problemau Sioned*, sy'n fwy addas ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd yn y brif ffrwd.

Gallwn ddarparu DVD-ROM sy'n cynnwys y ddau adnodd ynghyd â'r ffilm *Simone Valentine*. Neu ewch i'n gwefan a chliciwch ar "Annog cyfranogiad". Mae'r adran hon yn cynnig fersiynau i'w lawr lwytho o'r cynlluniau gwersi perthnasol a rhagor o wybodaeth am y prosiect Inc*lusion*, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2007.

www.cewc-cymru.org.uk

DADLEUWYR PEN-COED YN CIPIO BUDDUGOLIAETH GENEDLAETHOL

Jenny Willott, AS dros Ganol Caerdydd, yn cyflwyno'r tlws i dîm Pen-coed.

Roedd tipyn o her yn wynebu Ellen Robertson ac Eleanor Francis o Ysgol Gyfun Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr – ond daeth llwyddiant i'w rhan pan gyhoeddwyd mai'r ddwy yma oedd wedi ennill Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru Banc Julian Hodge 2007 yn yr ornest genedlaethol derfynol ym mis Tachwedd. Cynigiodd y ddwy fod "*Y Tŷ hwn yn cydnabod hawl Iran i ddatblygu rhaglen ynni niwclear sifil*", gydag Ysgol Brenin Harri'r VIII, Y Fenni, yn dadlau yn erbyn y cynnig.

Bu 51 o ysgolion a cholegau yn cymryd rhan yn yr ornest eleni, a welodd ddisgyblion yn dadlau ar bynciau fel system taflegrau niwclear Trident, cyfiawnder troseddol ac ehangu meysydd awyr.

Bydd Ellen ac Eleanor bellach yn aelodau o'r tîm fydd yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd 2008 yn Washington D.C., UDA, ym mis Medi. Aelodau eraill y tîm fydd Jon Worgan (Ysgol Brenin Harri'r VIII), Cerith Evans (Coleg Gorseinon, Abertawe) a James Staniforth (Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, Caerdydd).

Os hoffech i CEWC-Cymru ddarparu gweithdy dadlau yn eich ysgol chi, neu drefnu hyfforddiant mewn swydd yn y maes hwn, cysylltwch â **cewc@wcia.org.uk**. Neu ewch i **www.cewc-cymru.org.uk/dadlau/1290** am ragor o wybodaeth ar ddadlau, neu i archebu ein cyfrol *Debating Handbook* (Saesneg yn unig).

COLEG LLEOL AR Y BRIG YM MAE COLWYN

Gwelodd 6 myfyriwr o Goleg Llandrillo lwyddiant yn ystod tymor yr Hydref hefyd trwy ennill cystadleuaeth Fforwm Gogledd Cymru'r Senedd Ieuenctid Ewropeaidd 2007-08 ym Mae Colwyn ym mis Tachwedd. Ynghyd ag enillwyr Fforwm De Cymru – a gynhelir yn Abertawe ar 3 Mawrth 2008 – byddant yn cynrychioli Cymru yn sesiwn DU'r Senedd Ieuenctid Ewropeaidd yn Durham fis Medi.

DATRYS PROBLEMAU'R BYD I GYD – YNG NGHYMRU

Gallwn argymell ein Cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig yn frwd i ddisgyblion 14-18 oed sy'n awyddus i gael blas ar y ffordd y gwneir penderfyniadau o bwys rhyngwladol. Cynhaliwyd pedwar digwyddiad o'r fath yn ystod tymor yr Hydref – yng Nghaerfyrddin, Port Talbot, Caerdydd ac, am y tro cyntaf erioed, Prifysgol Aberystwyth, ac mae pedwar eto ar y gweill ar gyfer Gwanwyn 2008:

Swyddfeydd y Cyngor, **Llangefni** – Dydd Iau 6 Mawrth
Neuadd y Sir, **Yr Wyddgrug** – Dydd Gwener 7 Mawrth
Swyddfeydd y Dref, **Y Barri** – Dydd Iau 13 Mawrth
Neuadd y Sir, **Cwmbrân** – Dydd Llun 17 Mawrth

Bydd disgyblion yn gweithio fesul timau o dri, gyda'r rhan fwyaf o dimau yn cynrychioli un o'r gwladwriaethau sy'n aelodau o'r CU. Yn ystod y dydd byddant yn ceisio cytuno ar ffyrdd o fynd i'r afael â materion rhyngwladol o bwys; yn y gyfres gyfredol o ddigwyddiadau, Newid yn yr Hinsawdd a Masnach Fyd-eang yw'r pynciau dan sylw. Cynhelir sesiwn wybodaeth mis cyn pob cyfarfod, i gynorthwyo disgyblion i ddeall a pharatoi ar gyfer y digwyddiad.

E-bostiwch **cewc@wcia.org.uk** os hoffech gymryd rhan. Y gost yw £25 i ysgol/goleg sy'n aelod o CEWC-Cymru i gofrestru hyd at 9 o ddisgyblion, neu £40 i rai nad ydynt yn aelodau.

NEWID BYD YN SWYDDFA CEWC-CYMRU

Er mis Mehefin 2007, **Owain Iorwerth** oedd Cynorthwy-ydd Ysgrifenyddol CEWC-Cymru. Bu Owain yn astudio ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr a Phrifysgol Cymru, Aberystwyth cyn gweithio i Dolen Cymru, y corff sy'n hybu cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho. Yn Ionawr 2008 mae'n symud i fod yn Gydlynydd Cyfnewidiadau yn UNA Cyfnewid.

Ymunodd **Tamara Gervasoni** â ni ym mis Tachwedd 2007 yn swydd y Cydlynydd Rhaglenni, i drefnu cynadleddau a gweithgareddau dros CEWC-Cymru a'n mam gorff, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA). Yn 2004 treuliodd Tamara 6 mis yn gwirfoddoli yn Neheubarth Swdan, Cenia ac Ethiopia; mae hi'n meddwl am y profiad hwn fel trobwynt yn ei bywyd. Bu'n gweithio wedyn i'r asiantaeth ddyngarol Wyddelig GOAL, ac yn 2006 symudodd i Gaerdydd i astudio am radd Meistr ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol. Mae hi'n siarad Eidaleg, Ffrangeg a Sbaeneg yn rhugl ac mae wedi teithio'r byd.

Martin Pollard bellach yw Dirprwy Gyfarwyddwr Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Mae'n cadw ei rôl fel Swyddog Addysg CEWC-Cymru – gan hyfforddi athrawon, ymweld ag ysgolion a thrafod strategaeth gyffredinol y corff – ond mae wedi trosglwyddo'r gorchwyl o drefnu ein digwyddiadau i Tamara. Mae ei swyddogaeth newydd yn cynnwys codi arian a rheoli prosiectau ar gyfer y ddau gorff.

HELPWCH NI I BENNU DYFODOL CEWC-CYMRU

Un o Amcanion Strategol CEWC-Cymru – a amlinellwyd yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2007-2012 – yw datblygu i fod yn gorff mwy democrataidd, un a fydd yn ymateb mwy i farn y rhai sy'n defnyddio ein gweithgareddau. Mae'n bleser gennym felly i wahodd **athrawon** i ddod yn rhan o Grŵp Datblygu Prosiectau newydd, gan drafod prosiectau blaengar ym maes Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF), Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a meysydd eraill ar y cwricwlwm ysgol.

Ar yr un pryd, gwahoddwn **ddisgyblion** i ymuno â Grŵp Ymgynghorol i Bobl Ifainc. Rydym yn awyddus i sicrhau y gall dinasyddion ieuainc gyfrannu at wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, er mwyn cyflawni ein cenhadaeth i'w helpu "i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder a fydd yn eu galluogi i gyfrannu at ddyfodol Cymru a'r byd". Rydym yn awyddus i glywed eich syniadau ar gyfer gweithgareddau newydd, pynciau ar gyfer digwyddiadau i'r dyfodol, ac a fyddech yn hoffi cael eich cynrychioli ar Bwyllgor Gweithredol CEWC-Cymru.

Os hoffech ddod yn aelod o'r naill grŵp neu'r llall, e-bostiwch **martinpollard@wcia.org.uk** os gwelwch yn dda.

MEISTROLI ADCDF Y TU HWNT I'R YSGOL

Bellach mae Prifysgol Cymru, Casnewydd yn cynnig cymhwyster Meistr ym maes Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae hwn yn galluogi myfyrwyr i archwilio'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy, i ystyried pa mor effeithiol y caiff ei hyrwyddo ar y lefel ryngwladol, ac i fynd i'r afael â'r syniad o ddinasyddiaeth yn y byd modern. Am ragor o wybodaeth ewch i **www3.newport.ac.uk/courses/displayCourse.aspx?course_id=426**.

Dylunio elfen.co.uk

FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk Elusen gof. rhif 1048759

CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH • PARC CATHAYS • CAERDYDD • CF10 3AP